# Yr hyn sy'n digwydd pan gewch eich cymryd i'r llys am eich dyledion

Os oes arnoch arian i rywun, mae'n bosib y gallant eich cymryd i'r llys i'w hawlio yn ôl. I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt lenwi ffurflen hawlio gyda gwybodaeth am yr arian sy'n ddyledus a'i hanfon at y llys. Os yw eich credydwyr yn hawlio llai na £5,000, bydd y llys bron yn sicr yn penderfynu mai **hawliad bychan** ydyw. Mae'r wybodaeth isod yn berthnasol i hawliau bychain. Os yw mwy na £5,000 yn ddyledus, mynnwch gyngor arbenigol ar unwaith.

## Yr hyn sy'n digwydd pan wneir hawliad bychan yn eich erbyn

Os yw rhywun yn hawlio yn eich erbyn, byddwch yn derbyn nifer o ddogfennau o'r llys. Y ddogfen gyntaf fydd y **ffurflen hawlio**. Bydd rhif yr hawliad ar y ffurflen a dylech ei nodi ar unrhyw lythyr neu ddogfen yr ydych yn ei anfon at y llys. Mae'n rhaid bod stamp y llys ar y ffurflen hawlio. Os nad oes stamp ar eich ffurflen chi, mae'n bosib bod eich credydwr yn ceisio aflonyddu arnoch drwy anfon dogfennau ffug atoch. Mae'n bosib y byddwch am riportio hyn i'r heddlu.

Ar y ffurflen hawlio, bydd yna wybodaeth gryno am yr hawl a faint o arian y mae'r person sy'n hawlio yn dweud sy'n ddyledus gennych. Mae'n bosib bod mwy o wybodaeth am yr hawl naill ai ar y ffurflen hawlio ei hun neu ar ddogfen atodedig.

Byddwch hefyd yn derbyn papurau eraill mewn **pecyn ymateb**. Mae'r ffurflenni hyn yn cynnwys:

- ffurflen i'w defnyddio os ydych yn dweud nad oes unrhyw arian yn ddyledus gennych (**ffurflen amddiffyn**)
- ffurflen i'w defnyddio os ydych yn derbyn bod arian yn ddyledus gennych (**ffurflen addef**)
- ffurflen i'w defnyddio i gadarnhau eich bod wedi derbyn y dogfennau (**cydnabyddiaeth cyflwyno**)

Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen cydnabyddiaeth cyflwyno, yn ogystal ag un o'r ffurflenni eraill, yn dibynnu ar eich achos.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn ymdrin â'r papurau y mae'r llys yn ei anfon atoch o fewn y terfyn amser. Os nad ydych yn ymdrin â'r papurau, gellir gwneud gorchymyn llys yn eich erbyn. Os yw hyn yn digwydd, bydd angen i chi ad-dalu'r holl arian sy'n cael ei hawlio, hyd yn oed os nad yw'r arian yn ddyledus gennych. Mae'n bosib y bydd angen i chi dalu'r llog a chostau ychwanegol hefyd.

Pan fyddwch yn derbyn y papurau, mae'n bosib y bydd angen cymorth arnoch ynglŷn â'r hyn i'w wneud. Mae cyfreithiwr yn gallu rhoi cyngor cyfreithiol, ond bydd angen i chi dalu a ni fyddwch yn cael yr arian hwn yn ôl hyd yn oed os ydych yn ennill yr achos. Gallech gael cyngor gan ymgynghorydd dyled profiadol. Mae'n bosib



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

bod gennych ddyledion eraill hefyd, felly mynnwch gyngor ar eich holl ddyledion ar yr un pryd.

## Yr hyn i'w wneud pan gewch ddogfennau'r llys

Pan fyddwch yn derbyn y ffurflen hawlio, mae'n bosib y byddwch am siarad â'r person sy'n hawlio yn eich erbyn er mwyn ceisio dod i gytundeb heb orfod mynd i'r llys. Neu, efallai y byddwch am ymateb i'r hawliad yn syth. Bydd gennych 14 diwrnod i ymateb i'r llys. Gallech ofyn i'r person arall ymestyn y terfyn amser hwn. Sicrhewch fod yna gopi ysgrifenedig o unrhyw gytundeb sy'n ymwneud ag ymestyn y terfyn amser a hysbyswch y llys. Mae'n bwysig eich bod yn ymateb o fewn y terfyn amser.

## Yr hyn sy'n digwydd os ydych yn anghytuno â'r hawliad

Mae'n rhaid bod gennych resymau cyfreithiol da am anghytuno â'r hawliad (**amddiffyn yr hawliad**). Weithiau mae hyn yn hawdd, er enghraifft, os nad oes arnoch chi'r arian sy'n cael ei hawlio. Ar adegau eraill, mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth a dylech ofyn am gyngor. Os oes gennych resymau cyfreithiol da am anghytuno â'r hawliad, dylech lenwi'r **ffurflen amddiffyn** a'i hanfon yn ôl i'r llys gyda'r ffurflen **cydnabyddiaeth cyflwyno**. Mewn rhai achosion, gallwch wneud hyn ar-lein. Bydd y llys yn rhoi gwybod i chi os yw hyn yn bosibl a rhoi cyfrinair i chi er mwyn cael mynediad diogel. Mae'r achos yna yn **achos amddiffynedig**. Bydd rhagor o ddogfennau yn cael eu hanfon atoch sy'n esbonio'r camau nesaf.

Os yw'r llys yn penderfynu bod arian yn ddyledus gennych, bydd **gorchymyn llys** (o'r enw **dyfarniad llys sirol** neu **CCJ**) yn cael ei wneud yn eich erbyn. Mae'n bosib y bydd hyn yn effeithio ar eich gallu i gael credyd yn y dyfodol. Os nad ydych yn talu'r ddyled, gallai'r person arall gymryd camau cyfreithiol eraill yn eich erbyn. Er enghraifft, gallant anfon beilïaid i'ch cartref i gymryd eich eiddo. Bydd yn rhaid i chi dalu'r gost am hyn felly bydd eich dyled yn cynyddu.

## Yr hyn sy'n digwydd os ydych yn derbyn bod arian yn ddyledus gennych

Os ydych yn derbyn bod yr arian yn ddyledus gennych, llenwch y **ffurflen addef**. Bydd angen i chi roi gwybodaeth am eich amgylchiadau ariannol. Os ydych yn derbyn bod arnoch yr holl arian, dychwelwch y ffurflen at y **person y mae arnoch chi arian iddo**. Gallwch ofyn i dalu'r ddyled mewn rhandaliadau. Os ydynt yn derbyn eich cynnig, fe fydd yn cael ei gofnodi gan y llys. Os nad ydynt yn derbyn eich cynnig, bydd un o swyddogion y llys fel arfer yn penderfynu ar yr hyn sy'n deg. Os nad ydych yn gwneud unrhyw gynnig, bydd y person y mae arnoch arian iddo yn penderfynu faint y dylech ei dalu a phryd.

Os ydych yn derbyn bod yr holl arian yn ddyledus gennych, bydd CCJ yn cael ei wneud yn eich erbyn. Fodd bynnag, os ydych yn talu o fewn un mis o ddyddiad y CCJ, ni fydd y gorchymyn yn ymddangos ar eich ffeil credyd.



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

**Yr hyn sy'n digwydd os ydych yn derbyn bod rhywfaint o arian yn ddyledus gennych**
Mae'n bosib y byddwch yn derbyn bod arnoch rywfaint o arian i'r person arall ond rydych yn anghytuno â'r swm. Er enghraifft, gallech anghytuno â'r ffordd y mae'r llog wedi cael ei gyfrifo ar yr arian sy'n cael ei hawlio. Os nad ydych yn cytuno bod yr holl arian yn ddyledus gennych, llenwch y **ffurflen addef** gyda manylion am yr hyn yr ydych yn ei dderbyn, **a'r ffurflen amddiffyn** gyda manylion am yr hyn nad ydych yn ei dderbyn. Dychwelwch y ffurflenni hyn, ynghyd â'r gydnabyddiaeth gwasanaeth, **at y llys**.

Bydd y llys yn esbonio'r camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd ynghylch rhan yr hawliad nad ydych yn ei dderbyn.

Bydd angen i chi wneud trefniadau ynglŷn â thalu rhan o'r ddyled yr ydych yn ei dderbyn. Efallai y gallwch dalu mewn rhandaliadau. Os yw'r person y mae arnoch arian iddo yn derbyn eich cynnig, fe fydd yn cael ei gofnodi gan y llys. Os nad ydynt yn derbyn eich cynnig, bydd un o swyddogion y llys fel arfer yn penderfynu ar yr hyn sy'n deg.

## Cymorth ychwanegol

**Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth**
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

**Gwefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder**
Gweler taflen ex303, o'r enw 'A claim has been made against me – What should I do?' ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: www.justice.gov.uk.

**Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu**

- Cymorth gyda dyled
- Delio â phobl y mae arnoch chi arian iddynt
- Ôl-ddyledion treth incwm
- Sut mae Dyfarniadau Llys Sirol yn effeithio ar eich cofnod credyd
- Beiliaid
- Sampl o lythyron dyled

**Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.**

**Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.**

**Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 13 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan**


Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

**Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.**

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr